Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Menter yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Adolygiad Effaith Blynyddol 2019

Ein cenhadaeth

Yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ein nod ni yw gosod addysg entrepreneuraidd a menter wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Rydym yn gyfrifol am roi Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru ar waith yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid. Rydym yn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu eu syniadau, dysgu beth sydd ei angen i ddechrau busnes a'u helpu i gymryd y cam cyntaf at fod yn fos arnynt eu hunain.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn chwarae rhan allweddol mewn annog a chysylltu'r cyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng yr eco-system entrepreneuraidd yn rhanbarth Caerdydd drwy wneud defnydd llawn o egwyddorion Creu Sbarc i wneud y gefnogaeth a gynigir i fyfyrwyr a staff yn syml, yn weladwy ac yn gysylltiedig.

Y Swyddog Menter a'r Ganolfan Gyrfaoedd a Syniadau

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn darparu i Goleg Caerdydd a'r Fro Swyddog Menter sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r myfyrwyr entrepreneuraidd ac yn cefnogi staff i ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu haddysgu. Mae'n gweithio yn y Ganolfan Gyrfaoedd a Syniadau, gofod penodol sy'n cynnig pecyn o gefnogaeth, o ddarparu cyngor sefydlu i fyfyrwyr i gyfleoedd cyflogaeth, mentora, gweithdai, gofod desg a mwy.

Galwch yn y **Ganolfan Gyrfaoedd a Syniadau** ar Gampws Canol y Ddinas neu defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni a chychwyn ar eich siwrnai entrepreneuraidd.

Swyddog Menter:
Angus Phillips
Y Ganolfan Gyrfaoedd a Syniadau
Campws Canol y Ddinas
Heol Dumballs
Caerdydd, CF10 5FE
029 2025 0250
careers@cavc.ac.uk

Careers and Ideas
Gyrfaoedd a Syniadau

Ein darpariaeth

Cyfleoedd Menter Allgyrsiol
Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i feithrin sgiliau entrepreneuraidd a gwybodaeth fusnes ei fyfyrwyr drwy sesiynau cyngor busnes un i un, gweithdai sefydlu a chyfleoedd profi masnach.

Mentora busnesau un i un

Cynigir cyngor a chefnogaeth gyda'r canlynol:

- Cynllunio busnes
- Ymchwil Marchnad
- Arian grant a benthyciadau
- Cysylltiadau â phartneriaid allanol
- Cyfleoedd profi masnach

Sesiynau Galw Heibio yn cynnig Cyngor Busnes Proffesiynol
Bob mis, mae croeso i fyfyrwyr fynychu sesiynau galw heibio sy'n cynnig cyngor busnes, gan Gynghorydd Busnes Proffesiynol o **Syniadau Mawr Cymru**.

Cyfleoedd Profi Masnach
Mae myfyrwyr sydd wedi creu eu cynhyrchion arloesol eu hunain yn cael cyfle i brofi masnachu a gwerthu eu nwyddau i aelodau'r cyhoedd mewn digwyddiadau masnach amrywiol, yn y coleg ac yn allanol, yng nghanolfan brysur Capitol yng Nghaerdydd.

Geirda gan staff a myfyrwyr

"Mae gweithio gyda'r Swyddog Menter wedi rhoi llawer iawn o gyfleoedd i mi, a chefnogaeth a digwyddiadau posib, sydd wedi fy helpu i ddatblygu fel person er mwyn i mi allu tyfu fel busnes. O 'nghysylltu i gyda phobl i fy helpu i hyfforddi i roi atebion posib i mi i gefnogi fy nghynlluniau busnes, a rhoi lleoliadau gwaith addas a phenodol i mi."

Callum Walton
Myfyriwr Safon Uwch yn ei flwyddyn gyntaf yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

"Roedd y myfyrwyr yn mwynhau'r prosiect Gŵyl Cyfryngau o dan arweiniad y Swyddog Menter. Roedd cyfle i fynychu gweithdai model rôl, cyflwyno modelau busnes o gwmnïau cyfryngau lleol, cynnig syniadau ar gyfer eu cwmni cyfryngau newydd eu hunain a chreu ffilm ar gyfer cleient real a daniodd eu creadigrwydd a datblygu sgiliau pobl ac entrepreneuraidd allweddol."

Cristina Raad
Hyrwyddwr Staff a Darlithydd Cyfryngau yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

CREU SBARC | BE THE SPARK

Ein cyflawniadau yn ystod 2019

Mae ein cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi i ni ymgorffori siwrnai sefydlu ledled y sefydliad, yn ogystal â chyflwyno gweithgareddau newydd i gynyddu entrepreneuriaeth y myfyrwyr, gan ein helpu i adnabod a meithrin uchelgais y myfyrwyr i ddechrau busnes.

1044

Ymgysylltu: Cyflwyno'r myfyrwyr i entrepreneuriaeth.

Cafodd 1044 o fyfyrwyr eu hysbrydoli i ystyried sefydlu busnes neu weithio'n llawrydd fel dewis gyrfaol didwyll drwy sgyrsiau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Grymuso: Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuraidd (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad).

Cafodd **254** o fyfyrwyr eu grymuso i edrych ar eu capasiti entrepreneuraidd a'i brofi drwy brosiectau a gweithdai entrepreneuraidd.

Paratoi: Profi masnach: Myfyrwyr yn dilysu syniadau busnes neu'n profi masnach.

Cafodd **100** o fyfyrwyr gyfle i brofi gwerthu eu cynhyrchion arloesol eu hunain mewn cyfleoedd profi masnach amrywiol yng Nghaerdydd.

Derbyn cefnogaeth cyn dechrau: Myfyrwyr a graddedigion yn cael cefnogaeth i ddechrau busnes (cefnogaeth i ddechrau busnes).

Cafodd **32** o fyfyrwyr gefnogaeth a chyfarwyddyd ar gyfer dechrau busnes drwy fentora busnes un i un.

Dechrau busnesau:

Aeth **11** o fyfyrwyr ati i ddilysu a sefydlu eu busnesau.

Cwricwlwm

Mae ein cyllid gan Lywodraeth Cymru yn galluogi i'n Swyddog Menter weithredu entrepreneuriaeth ar draws y coleg drwy feithrin gallu staff ac adrannau i arwain y gwaith hwn yn eu maes addysgu.

Yn ystod 2019, **mae 12 aelod o staff** ar draws y sefydliad wedi hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu hysgol neu adran academaidd. Maent wedi cyflawni hyn drwy gynnal prosiectau arloesol, gweithdai dosbarth, sesiynau model rôl a thrwy weithio'n agos gyda busnesau allanol i ddarparu i fyfyrwyr friffiau cyflogwr byw i ddatblygu sgiliau a rhinweddau menter y dysgwyr i gyd.

Gweithdai Menter

- Datblygu meddylfryd entrepreneuraidd
- Cynllunio Busnes
- Creu syniadau
- Marchnata
- Menter Gymdeithasol
- Cyllid
- Llawrydd
- Rhwydweithio
- Cynnig Syniadau

Modelau Rôl
Mae **entrepreneuriaid**, o Syniadau Mawr Cymru, yn dod i mewn i gyflwyno gweithdai yn y dosbarthiadau i addysgu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr entrepreneuraidd, drwy rannu gwersi a straeon am eu llwyddiant eu hunain.

Briffiau cyflogwyr byw
Mae busnesau allanol yn cydweithio â'r coleg i ddarparu i fyfyrwyr friffiau cyflogwyr byw a phrofiad o gwblhau gwaith ar gyfer cleientiaid real.

Digwyddiadau Menter

- **Marchnata Milflwyddol** – Her farchnata drawsgolegol sy'n darparu i ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth o farchnata digidol.
- **Materion Cymdeithasol** – Cystadleuaeth menter gymdeithasol drawsgolegol lle mae'r myfyrwyr iechyd a chymdeithasol yn datblygu mentrau cymdeithasol arloesol i roi sylw i broblem gymdeithasol benodol.
- **Gŵyl Gynhyrchu'r Cyfryngau** – Mae'r myfyrwyr cyfryngau'n creu eu cwmnïau cynhyrchu eu hunain, gan weithio ar ffilmio briffiau gan gleientiaid real a chanfod gwybodaeth am sut i fod yn llawrydd.
- **Den Dewi** – Cystadleuaeth debyg i Dragon's Den lle mae'r dysgwyr yn profi eu sgiliau entrepreneuraidd ac yn cynnig eu syniadau busnes i'r "Dreigiau" i gael cyllid.
- **Digwyddiad Marchnad Stoc** – Mae'r myfyrwyr yn cael cyfle i fod ar lawr masnachu marchnad stoc real yn Ysgol Fusnes Caerdydd.